



Annwyl Riant/Warcheidwad

Gobeithiaf fydd y tywydd yn garedig i chi gyd dros penwythnos gŵyl y banc a chewch gyfle i mwynhau ychydig o'r newidiadau yn y cyfyngiadau COVID.

Ymddiheurwn os oeddech wedi ceisio cysylltu gyda'r ysgol ddoe - collwyd cysylltiad ffon a rhyngwyd am ran sylweddol o'r dydd felly nid oedd modd ymateb i'ch negeseuon.

Braf oedd gweld rhai o ddisgyblion blwyddyn 12 yn lleisio'u barnau ar raglen S4C. Da iawn Gruffydd, Huw a Glain am eu cyfraniad i'r rhaglen 'Etholiad 21:Taswn i'n brif weinidog'. Mae'r tri yn trafod y profiad o gael pleidleisio am y tro cyntaf eleni, ac mae modd gwyllo ar S4C Clic: <https://www.s4c.cymru/clic/programme/825498274>

Llwyddiannau disgyblion

Mae tri o ddisgyblion yr ysgol wedi bod yn llwyddiannus yng nghystadleuaeth Siarad Cyhoeddus CFFI Cymru dros y penwythnos.

Gwnaeth tîm CFFI Ceredigion ennill y categori Adran Ddarllen Iau, ac roedd Oisín Lludd Pennant blwyddyn 11 a Lois Jones blwyddyn 9 yn aelodau o'r tîm buddugol, gyda Lois yn ennill gwobr yr unigolyn gorau. Gwnaeth tîm CFFI Maldwyn ddod yn ail yng nghystadleuaeth Siarad Cyhoeddus yr Adran Iau, ac roedd Catrin Aur Evans blwyddyn 11 yn aelod o'r tîm yma.

Rhannu graddau CA4 a CA5

Mae'r system graddau eleni yn ein galluogi ni i rannu graddau dros-dro gyda disgyblion cyn iddynt gael eu rhannu gyda'r bwrdd arholi. Gallwn gadarnhau'r dyddiadau ar gyfer y rhain:

- Bydd canlyniadau dros-dro **Safon Uwch ac Uwch gyfrannol** yn cael eu rhannu ar **ddydd Mawrth, 15fed o Fehefin**.
- Bydd canlyniadau dros-dro **TGAU** yn cael eu rhannu ar ddydd **Mercher, 16eg o Fehefin**.

Yn dilyn hwn bydd modd i ddisgyblion sydd eisiau trafod eu graddau gwneud apwyntiad i weld aelod o'r tîm arwain estynedig. Nid yw'r llywodraeth wedi cyhoeddi manylion y broses apêl eto ond bydd cyfle o ddisgyblion gofyn i'r ysgol adolygu'r radd os ydynt yn meddwl fod yna problem gyda'r broses pennu graddau.

Dyddiadau Allweddol

Dydd Llun	3/5	Gŵyl y Banc
Dydd Mawrth	4/5	Noson rieni blwyddyn 7
Dydd Gwener	28/5	Diwrnod HMS
Dydd Llun-Gwener	31/5-4/6	HANNER TYMOR
Dydd Mercher	9/6	Diwrnod HMS
Dydd Mawrth	15/6	Canlyniadau dros-dro Safon Uwch / UG
Dydd Mercher	16/6	Canlyniadau dros-dro TGAU

Prosiect pleidlais

Bu'n ddiddorol clywed syniadau disgyblion yr wythnos hon fel rhan o 'brosiect pleidlais'. Cawsant gyfle i bleidleisio yn ystod yr wythnos ac roedd eu hagwedd tuag at y broses yn aeddfed iawn. Bydd canlyniadau'r bleidlais yn cael eu cyhoeddi yn dilyn yr etholiad wythnos nesaf.


Gollwng Disgyblion

Gofynnaf yn garedig i rieni sy'n gollwng plant yn y bore i beidio aros tu allan i'r adeilad er mwyn cadw'r llif traffig. Gallwch ollwng eich plant ger y maes parcio staff. Diolch.

Neges gan yr heddlu

Mae'r heddlu wedi gofyn i ysgolion rannu rhybudd am ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ystod yw wythnosau nesaf. Rydw i wedi atodi eu neges i'r bwletin hwn.

Dymunaf benwythnos braf i chi gyd,



Dr Rhodri Thomas
(Pennaeth)